

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 22^{AIN} MEDI 2021
(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: R. Emlyn Williams (REW), Ann Vaughan (AV), Gwynfor Davies (GD), Einir Williams (EW), Diane Roberts (DR), Mark Davies (MD) & Gwydion Jones (GJ)

1.3 Ymddiheuriadau: Garffild Ll Lewis (GLL) a Gwyn Williams (GW)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO 28^{AIN} GORFFENNAF 2021

Cynnigwyd yn gywir gan EW ac eilwyd gan REW.

4 MATERION YN CODI

Dim i'w godi.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 0/48724: (cais wedi ei gymeradwyo'n barod) dim sylw.

5.2 0/48732: (cais wedi ei gymeradwyo'n barod) dim sylw. Sylw gan EW am reolau llygredd amaethyddol sydd yn dod i rym, tebyg bydd mwy o geisiadau tebyg yn dod i law.

6 MATERION ARIANNOL

6.1 DR yn gofyn os gaiff yr awdit i'w drafod yng nghyfarfod mis Hydref.

6.2 GD wedi derbyn llythyr gan y banc yn dweud eu bod yn newid y cyfrif cyfredol, maent yn cau cyfrifon cymunedol ac yn eu newid i gyfrif banc newydd elusenol o'r 1^{af} Tachwedd 2021, byddant yn codi tâl bob mis am y cyfrif a sawl tâl ychwanegol. Os nad yw'r Cyngor yn derbyn yr amodau newydd, bydd y cyfrif yn cael ei gau. DR yn codi fod hyn wedi ei godi hefyd ynglyn â chyfrifon Merched y Wawr a'r Sioe yn ddiweddar a fod cyfrif Plaid Cymru wedi cael ei gau. DR yn adrodd taw dim ond Santader oedd yn fodlon cynnig cyfrif newydd ar gyfer y math yma o gyfrif ond does dim i ddweud na fuasai banciau eraill yn gwneud yr un peth yn y dyfodol. Cododd EW nad yw'n debyg fod llawer o bwynt symud o dan yr amgylchiadau uchod. REW yn teimlo fod angen ysgrifennu at yr aelodau seneddol lleol (David Jones yn benodol) i godi'r broblem yma. Gofynnodd CR beth oedd barn y cynghorwyr, EW yn gofyn oes oedd modd cael amser i feddwl am hyn a'i drafod yn y cyfarfod nesaf a gweld beth sydd yn bosib cael gwneud taliadau electroneg. I'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

7 MATERION Y CYNGOR

7.1 Trafododd EW fod rhaid cynnig i bobl (cynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd) ymuno yn ddigidol ym mhob cyfarfod (aml-leoliad). Gofynnodd os oedd yn amser i'r Cyngor brynu gliniadur er mwyn mynd ag o i bob cyfarfod fel sgrin ychwanegol os oes aelod o'r cyhoedd am ymuno. Gofynnodd MD os oes rhyngwyd digon cryf ym Mhandy Tudur a Gwytherin, cadarnhaodd REW & EW fod Gwytherin efo rhyngwyd digon cryf, GD yn nodi nad oes cyswllt ym Mhandy Tudur. Gofynnodd CR beth oedd barn y cynghorwyr i ail-gyfarfod yn y tri pentref, REW yn teimlo fod hyn yn ddyletswydd, DR yn bryderus am fod mewn lleoliad

cyfyng. Nododd CR fod y tri lleoliad yn eang iawn. Nododd CR y buasai'r Cyngor yn aros ar zoom ar hyn o bryd. Cododd EW fod grant gan y Cyngor Sir ar gael i brynu trwydded zoom ar gyfer y cyngor. Pawb yn hapus i EW ofalu am hyn ac i dalu efo'i cherdyn ei hun (os fydd angen) a chael ad-daliad gan y Cyngor.

7.2 Dal yn broblem, CR wedi cyfathrebu drwy ebost â GLL heddiw. Er fod faniau Gan Bwyll i fod i ddod i'r pentref ym mis Gorffennaf, mae'n debyg fod problem efo'r awdurdod lleol felly nid ydynt wedi mynychu. CR heb gael ateb i weld beth yw'r broblem. AV wedi derbyn llythyr gan Stephen & Anette Lockier am or-yrru rhwng y rhes dai a'r Felin ar y ffordd am Lanrwst. Cwyno fod y ffordd yn gul a fod cerbyd wedi taro eu ffens yn ddiweddar. CR am ymateb i'r llythyr ac adrodd fod y Cyngor yn gwneud ei orau i ddatrys y broblem. Cododd MD hefyd y dylsai 20mya gael ei roi ar y rhan yma o'r ffordd hefyd gan ei fod yn gul. Cododd AV fod yr arwyddion 20mya wedi eu symud yn y pentref ac ei fod yn haws eu gweld bellach.

AV wedi derbyn galwad gan aelod o staff o'r Cyngor Sir yn ddiweddar ynglyn â 20mya yn y pentref. Wedi cynnig cael arwydd 20mya yn fflachio. Merched y Wawr hefyd yn poeni am y sefyllfa ond yn teimlo y dylsai'r arwyddion gael eu prynu i ddiogelu plant yr ardal.

DR wedi ebostio'r Cyngor Sir i ofyn os y caiff baentio 20mya ar y ffordd yn y pentref, heb gael ateb eto! Pawb yn gytun fod angen ceisio atal damwain ddigwydd.

AV yn gofyn beth oedd y farn am brynu'r arwyddion. Wedi cael trafodaeth efo Berwyn Evans o Lansannan a'u bod hwythau yn methu cael arwydd fflachio 20mya yno chwaith. REW yn cynnig pasio'r mater ymlaen i GLL hefyd. CR yn codi fod GLL yn ymwybodol o gefndir ar y mater.

7.3 Adroddodd CR am waith cynnal a chadw ar lwybrau yn ddiweddar.

7.4 Trafododd EW yr ymgynghoriad ynglyn a chymwysterau clerod. EW wedi gwneud ymholiadau ac mae'n debyg fod hyn yn mynd i fod yn broblem eang. Mae'n debyg fod hwn yn un o dri pwynt i Gynghorau Cymuned fod yn gymwys, proses etholiadaol, cael clerc efo cymhwyster a rhaid cael dwy flynedd o fod yn ddi-fai gan yr awdit.

Gofynnodd MD sawl cyngor cymuned arall sydd heb glerc. Trafodaeth fod hyn yn broblem eang. Gofynnodd EW i DR os oedd gan Un Llais farn ar hyn. DR heb glywed nad yw Un Llais wedi codi hyn ond fod ganddynt gyrsiau ar y wê, wnaiff DR wneud ymholiadau ac adrodd 'nôl i'r Cyngor. Angen gwybod lle mae'r Cyngor yn sefyll os nad yw'n 'gymwys'. Pawb yn gytun i EW ymateb i'r ymgynghoriad i ategu nad oes gan Gyngor Cymuned Llangernyw glerc.

7.5 DR wedi cael cwynion nad oedd y glaswellt yn y fynwent yn Llangernyw wedi ei dorri o flaen angladd diweddar. Trafodaeth fod angen cysidro torri'n amlach flwyddyn nesaf, tywydd wedi effeithio hyn dros fisoedd yr haf.

REW yn trafod fod angen trafod materion mynwentydd, angen trefnu cyfarfod pwyllgor mynwentydd i drafod hyn ymhellach.

GJ yn ymuno yn y cyfarfod 8:25pm

CR am drefnu pwyllgor mynwentydd cyn y cyfarfod llawn nesaf. Cododd REW fod canghenau wedi disgyn yn y fynwent yn Llangernyw.

7.6 Wedi ei drafod yn 7.1 uchod.

8 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Dim adroddiad wedi dod i law yn absenoldeb GLL.

9 BILIAU

9.1 Enlli: £156.22, cytunwyd i dalu.

9.2 Ednyfed Vaughan adnewyddu giatiauw mynwent: £495.84, cytunwyd i dalu.

- 9.3** REW wedi derbyn anfoneb am dorri glaswellt gan Dei Evans, £570, cytunwyd i dalu ynghyd ac anfoneb mis Awst £420, cyfanswm £990.
- 9.4** GD wedi talu anfoneb am y sgipliau.
- 9.5** AV anfoneb am fylbiau a blodau, mainc i Bandy Tudur a staen i Gwytherin, cyfanswm £271.25. Cytunwyd i dalu. Grant ar gael ar gyfer hyn fel drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf.
- 9.6** Cyfrifydd: £60 am wneud gwaith cyflog am y flwyddyn 2020-2021, cytunwyd i dalu.

10 MATERION LLEOL

GD yn codi fod sawl arwydd ffordd angen eu glanhau.

EW aelod o'r cyhoedd wedi tynnu sylw at iurt yn Felin Isaf, Gwytherin yn cael ei osod fel safle gwyliau drwy Air Bnb, ddim wedi gwneud cais cynllunio ar gyfer hyn. Angen gwneud ymholiadau ynglyn â hyn.

Wedi derbyn cwyn am goeden ym mynwent Gwytherin ei bod yn berygl, EW wedi bod yno ond ddim wedi gweld problem ond fod angen gwneud ymholiadau pellach ynglyn â'r coed ywen (yng Ngwytherin a Llangernyw). AV yn codi y buasai modd gwneud asesiad risg. DR wedi cysylltu efo'r Cyngor Sir ynglyn â'r coed yn yr Ardd Goffa ond heb gael ateb. Gofynnodd os buasai gofyn wrth Andy Fowler o Nant Conwy Tree Servies am bris. EW am wneud ymholiadau trwy ei gwaith hefyd.

AV wedi cael cwyn am y ffordd yn pasio'r capel yng Ngwytherin, tyllau yn y ffordd, am ddefnyddio Report It. REW wedi pasio ond heb sylwi fod problem.

Grant ar gael i dyfu coed a thyfu perllanoedd/gwrychoedd, plant ysgol yn medru cael coed am ddim i wneud perllan yn yr ysgol.

DR codi fod angen cysidro arwyddion 20mya ym mhentref Gwytherin, gor-yrru drwy'r pentref dros yr haf.

Adeilad newydd yn cael ei godi ger y Lodge, Hafodunos a tŷ newydd hefyd yn cael ei godi ynghanol y coed a'r llwybr cyhoeddus wedi ei symud.

Mainc ym mynwent Llangernyw ddim yn saff a gofyn os oedd cael mainc mewn lleoliad arall heb ofn llithro ar y glaswellt.

Wedi derbyn cwyn a gofyn os oedd modd symud yr arwydd 30mya ger Fedwen Arian yn nes o'r pentref i fyny am gyfeiriad Hafodunos, ffordd yn culhau a'r arwydd yn hwyr iawn a gyrrwyr ddim yn gweld yr arwydd tan y funud olaf. DR am wneud ymholiadau efo Wil Roberts, Swyddog Priffyrdd yn y Cyngor Sir i drafod hyn ymhellach. Hefyd llwybr cyhoeddus yn yr ardal angen ei glurio, am ddefnyddio Report It ar gyfer hyn.

Cwestiwn beth sydd wedi digwydd i'r ddwy groes oedd ar y ddwy giat ym mynwent Llangernyw, gofyn os oedd modd rhoi'r ddwy groes stainless steel yn ôl ar y ddwy giat yn lle'r croesau newydd sydd wedi eu gosod yn eu lle. GD yn nodi fod y giatiau yn ddu cyn y gwaith adnewyddu ac felly roedd y croesau yn sefyll allan yn well.

CR yn codi fod GW wedi codi fod carafan static yn Llwyn Llydan a gofyn os oedd caniatad wedi ei roi ar ei chyfer. CR am wneud ymholiadau pellach ynglyn â hyn.

11 CYFARFOD NESAF

27^{ain} Hydref 2021 (Cyfarfod Rhithiol)

Cyfarfod yn dod i ben 9yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan